**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Corfforaethau Addysg Bellach (Disodli Offerynnau Llywodraethu ac Erthyglau Llywodraethu) (Cymru) 2006**

Nid offeryn statudol yw'r Gorchymyn yma, ac mae'n dod gerbron y Pwyllgor Deddfau yn unol â Rheol Sefydlog 29.3(ii). Mae adran 89(2) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn pennu nad yw gorchymyn o'r natur yma'n cael ei wneud drwy offeryn statudol.

**Rheol Sefydlog 11.7**
Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae paragraff 12(6) o Atodlen 1 yn caniatáu defnyddio dull electronig i roi hysbysiad am gyfarfodydd o dan is-baragraffau (2) a (4). Yn ôl pob golwg, does dim rheswm da dros beidio â'i ddefnyddio hefyd ar gyfer hysbysiadau tebyg o dan is-baragraff (3). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae geiriad paragraff 14(1) o Atodlen 1 yn amwys. Ar ddiwedd y testun Saesneg, dywedir bod gan y cadeirydd "second or casting vote." Gallai hyn gael ei ddehongli fel pe bai'n caniatáu ail bleidlais neu bleidlais fwrw, sef y ffordd y mae'r testun Cymraeg wedi'i fynegi. Yn yr olaf o'r ddau achos yma, fyddai gan y Cadeirydd ddim pleidlais gychwynnol, dim ond pleidlais fwrw pe bai'r pleidleisiau eraill yn gyfartal. Os bwriedir i'r Cadeirydd gael ail bleidlais bob amser, a honno'n bleidlais fwrw, dylai hynny gael ei fynegi'n gliriach. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

O dan erthygl 9(1) o Atodlen 2, caiff y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd atal staff uwch "am gamymddwyn neu am reswm da <u>neu</u> frys arall". O dan erthygl 9(2) o Atodlen 2, caiff y Penadur wahardd staff eraill "am gamymddwyn neu am reswm da <u>a</u> brys arall". Dydy'r rheswm dros y prawf is ar gyfer y staff uwch ddim yn amlwg: efallai mai amryfusedd sydd yma. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn nhestun Cymraeg paragraffau 2(5) a (6) o Atodlen 1, mae'n ymddangos bod y croesgyfeiriadau'n anghywir. Dylen nhw gael eu newid i adlewyrchu trefn yr wyddor Gymraeg a dylai'r mewnosodiad yn 2(6) fod yn Gymraeg. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae testun Saesneg paragraff 3(2)(c) yn defnyddio'r ymadrodd "rounded up", tra gall y testun Cymraeg gael ei ddehongli fel pa bai'n caniatáu talgrynnu i fyny neu i lawr. Dylai'r geiriau "i fyny" gael eu mewnosod. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae testun Saesneg paragraff 7(4) yn defnyddio'r ymadrodd "as Clerk or as temporary Clerk". Mae'r testun Cymraeg yn gymwys i Glerc dros dro yn unig. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn nhestun Cymraeg erthygl 11(2), mae "uwch" diangen wedi sleifio i mewn i'r bedwaredd linell. Mae'r cyd-destun, yn ogystal â'r testun Saesneg, yn dangos yn glir nad yw'n briodol. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mân wallau drafftio neu fân wallau teipograffyddol yw'r rhain i gyd a byddai'n briodol eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

**Sylwadau**
Mae testun Cymraeg erthygl 10(1) yn defnyddio'r ymadrodd "Clerc, os yw ef hefyd yn aelod o'r staff." Er nad yw hyn o fewn y ddealltwriaeth arferol o iaith ryw-benodol, gan ei fod yn dilyn arfer y Gymraeg o ddefnyddio cenedl ramadegol yr enw, mae hwn yn achos lle byddai "ef neu hi" neu hepgor yr "ef" yn fwy priodol. Byddai'n ddefnyddiol cynnwys hyn yn y Memorandwm Cywiriadau.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**14 Chwefror 2006**